

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

41(v4)

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/4073>

Cofnod y Trafodion

Gweld [Cofnod y Trafodion](#)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.15

[Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynghylch y sylwadau a wnaeth y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys fod gofal brys yng Nghymru mewn argyfwng?

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.33



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu Strategol Drafft ar gyfer Dementia yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.50

4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ffliw Adar

Dechreuodd yr eitem am 15.35

5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Y Gronfa Triniaethau Newydd

Dechreuodd yr eitem am 16.13

6 Dadl: Cyllideb Derfynol 2017–18

Dechreuodd yr eitem am 16.46

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

NDM6192 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017–2018 a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet og dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 20 Rhagfyr 2016.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	8	17	52

Derbyniwyd y cynnig.

7 Dadl: Egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.46

NDM6193 [Mark Drakeford \(Gorllewin Caerdydd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

[Gosodwyd](#) y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 12 Medi 2016.

[Gosodwyd](#) adroddiad y [Pwyllgor Cyllid](#) ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 20 Rhagfyr 2016.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

8 Dadl ar y Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.39

NDM6194 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.40

Daeth y cyfarfod i ben am 18.40

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

